

**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd
ar 23 Hydref 2017 yn Theatr y Ddraig, Abermaw**

YN BRESENNOL

**Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams - Cadeirydd
Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams – Is-gadeirydd**

Y Cyng. Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Cyng. R. Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Mark James (RNLI), Mrs Wendy Ponsford (Aelod o Glwb Hwyllo Meirionnydd), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw), Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw).

Swyddogion

Mr Llŷr B. Jones	-	Uwch Reolwr – Economi a Chymuned
Mr Barry Davies	-	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig
Mr Glyn Jones	-	Harbwr Feistr Abermaw
Mr Alex Hills	-	Cymhorthydd Harbwr
Mrs Glynda O'Brien	-	Swyddog Cefnogi Aelodau
Mrs Mererid Watt	-	Cyfieithydd

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas (Aelod Cabinet - Economi), Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgota Abermaw a Bae Cerdigion, Mr Arthur F. Jones (Uwch Swyddog Harbyrau).

Eglurwyd mai y Cyng. Ioan Ceredig Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi, sydd bellach yn gyfrifol dros y Gwasanaeth Morwrol ac nid y Cyng. Craig ab Iago fel a nodir ar wefan y Cyngor. Gofynnwyd i'r Swyddog Cefnogi Aelodau gysylltu â'r swyddog perthnasol i gywiro hyn ar y wefan.

1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Gethin Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2017/18.

3. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod am y rhesymau a nodir:

- (a) Cyng. Gethin Williams – aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol
- (b) Cyng. Julian Kirkham - yn perthyn i un o'r gweithredwyr fferi
- (c) Mr Mike Ellis – aelod o bwyllgor Ras y Tri Copa
- (d) Mrs Wendy Ponsford – aelod o'r Clwb Hwyllo, aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol
- (e) Cyng. Rob Triggs – aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol, aelod o'r Clwb Hwyllo
- (f) Mr Martin Parouty – gweithredwr masnachol yn yr harbwr, aelod o'r Clwb Hwyllo ac Ymddiriedolaeth Cymunedol

(g) Dr John Smith – aelod o'r Clwb Hwyllo, aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol

Ni fu i'r Aelodau bleidleisio ar faterion a oedd yn ymwneud â'u buddiant personol.

4. COFNODION

Cyflwynwyd: Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 14 Mawrth 2017.

Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

5. YMHOLIAD YNGLYN AG EITEM "UNRHYW FATER ARALL"

Cyn symud ymlaen, tynnodd aelod sylw nad oedd eitem ar y Rhaglen ar gyfer "Unrhyw Fater Arall". Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd yn arferiad rhoi yr eitem ar y rhaglen ond yn pwysleisio os oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol unrhyw faterion o bryder bod modd iddynt ddwyn y materion hynny i sylw staff y Gwasanaeth Morwrol yn ddi-oed.

Nododd Aelod ei fod yn ymwybodol bod y cyhoedd yn cysylltu â'r Adran ynglyn â chwynion e.e. anifeiliaid wedi ei golchi ar lannau'r traeth, ond nad oeddynt yn derbyn ymateb.

Mewn ymateb i'r uchod, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y Gwasanaeth yn derbyn nifer o adroddiadau yng nghyswllt yr uchod yn ddyddiol ond nad oeddynt o reidrwydd yn gallu ymateb bob tro. Fodd bynnag, sicrhawyd bod pob cwyn yn cael eu cofnodi a'r Gwasanaeth yn gweithredu fel bo angen.

Awgrymodd Aelod pe byddai modd ystyried gweithredu sistem o ymateb awtomatig i'w anfon i'r cyhoedd pan yn cyflwyno cwynion a / neu i'r Ganolfan Gyswllt ym Mhenrhyndeudraeth ymdrin â'r galwadau.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Uwch Reolwr – Economi a Chymuned ystyried gweithredu ymatebion awtomatig i'w anfon i'r cyhoedd.

6. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

Cyflwynwyd: Adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, Mr Barry Davies, yn diweddarau'r pwyllgor ar faterion rheolaethol yr Harbwr.

Cyfeiriwyd yn benodol at y canlynol:-

(a) Aelodaeth y Pwyllgor - gofynnwyd i Grŵp Mynediad Traphont Abermaw gyflwyno cyfansoddiad a chofnodion eu Cyfarfod Blynyddol i'r Swyddog Cefnogi Aelodau, yn unol â phenderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd yn 2014. Bydd angen i'r mudiadau / sefydliadau gyflwyno'r wybodaeth yn flynyddol.

(b) Angorfeydd a Chofrestru Cychod Abermaw – cyflwynwyd rhestr ychwanegol i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod a chyfeirwyd at y dau gwch a dorwyd yn rhydd yn ddiweddar. Pwysleiswyd nad oedd dim o'i le ar yr angorfeydd ond yn hytrach y ddolen rhwng blaen y cwch a'r bwi a falwyd ac sydd yn gyfrifoldeb i'r perchennog. Annogir perchnogion cychod yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau priodol a bod yr angorfeydd yn addas i'r pwrpas.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhawyd bod staff yr Harbwr yn gwirio ac yn sicrhau bod y stropiau yn addas. Teimlai'r Gwasanaeth Morwrol yn rhwystredig yn wyneb y ffaith bod trefniadau mewn lle ar gyfer cyflwyno dogfennaeth gyfredol priodol i'r Harbwr Feistr ond nad oedd ambell unigolyn yn cydymffurfio. Awgrymwyd i'r dyfodol y byddai angen cynnal awdit o'r oll angorfeydd ac os nad ydynt yn gymwys yn unol â chanllawiau'r Gwasanaeth, ni fyddai opsiwn ond eu gwahardd o'r Harbwr a chyfarwyddo i godi'r angorfeydd allan.

Pwysleiswyd bwysgirwydd i sefydlu proses gadarn i ymdrin â'r mater uchod ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol i adolygu'r Is-ddeddfau fel bo modd gweithredu'n fwy llym i'r dyfodol. Croesawyd gefnogaeth y Pwyllgor Ymgynghorol i'r awgrym hwn ac anogwyd Aelodau i ledaenu'r neges i'w mudiadau o bwysigrwydd bod angorfeydd yn cyrraedd gofynion ac yn addas i bwrpas.

Mewn ymateb i ymholiad ynglyn â'r ystadegau o gychod pwer / hwylio a'r ganran ym Meirionnydd yn lleihau o'i gymharu â chynnydd ym Mhenllŷn, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod Pwllheli wedi ei adnabod fel man i gynnal rasmus lleol a bod yna ddiwydiant hwylio cryf yno.

Ychwanegwyd bod Clwb Hwyllo Meirionnydd yn gwneud gwaith gwych hefo'r ieuencid yn nhref Abermaw.

Penderfynwyd: Cymeradwyo bod y Gwasanaeth Morwrol yn cynnal adolygiad o'r Is-ddeddfau Harbwr er mwyn sefydlu gweithdrefn gadarn i'w roi mewn lle ar gyfer cyflwyno dogfennaeth priodol o addasrwydd angorfeydd.

(c) Cod Morwrol a Diogelwch Porthladdoedd

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau (MCA), Adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, wedi cynnal arolwg o drefniadau a systemau diogelwch presennol harbyrau'r Sir ac fe fyddir yn cyflwyno eu hadroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol yn y gwanwyn. Ni ragwelwyd bod unrhyw broblemau yn deillio o'r arolwg a'u barn cychwynnol ydoedd bod y Gwasanaeth yn cydymffurfio gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen matrices hyfforddiant cynhwysfawr i staff. Canolbwyntiwyd yr arolwg ar harbyrau Aberdyfi, Porthmadog a Phwllheli ac ni fu ymweliad ag Abermaw oherwydd prinder amser. Nodwyd ganddynt bod angen tacluso oddi amgylch cei harbwr Aberdyfi a chyflwynwyd sylwadau ar lafar ynglyn â llêd y sianel yn Harbwr Pwllheli.

Bwriedir cynnal ail-ymweliad o fewn 12 mis ac yn dilyn trafodaeth gyda'r archwilwyr byddai'n fuddiol i'w gynnal i gyd-fynd gyda dyddiad Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog gan wahodd cynrychiolwyr Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli i'r cyfarfod hwnnw.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(ch) Mordwyo

Adroddwyd bod y buddsoddiad a wnaed i'r cymhorthion mordwyo wedi bod yn llwyddiannus gan bod pob un wedi aros ar eu safle. Cyflwynwyd un adroddiad i Fwrdd Archwilio Damweiniau Morol (MAIB) yn dilyn digwyddiad yn yr Harbwr a ddigwyddodd oherwydd diffyg profiad a dealltwriaeth unigolyn. Gohebwyd â'r unigolyn dan sylw gan gynnig arweiniad ar gyfer hyfforddiant.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(d) Cynnal a Chadw

Amlinellodd yr Harbwr Feistr ar ei raglen waith dros gyfnod y gaeaf gan nodi y byddir yn ei gylchredeg i'r Aelodau, a'i fod ef a'i gynorthwy-ydd yn gyfrifol am ardal o Llandanwg i Fairbourne. Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- Adfer arwyddion a'u trwsio
- Trwsio cloau
- Gwaith i'r grisiau cyhoeddus gyferbyn a'r bloc toiledau
- Glanhau'r llithrfa, wal y promenad o algau'r môr
- Atgyweirio'r llochesi sydd yn parhau yn destun fandaliaeth
- Trwsio canllawiau ar hyd y cei
- Trwsio bwi Fairway
- Trwsio llifddor oherwydd difrod

Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig pe byddai Aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o unrhyw waith ychwanegol sydd angen i'w gyflawni, annogwyd hwy i gysylltu hefo'r Harbwr Feistr.

Cadarnhawyd mewn ymateb i ymholiad gan Aelod bod ffôn ar gyfer galw Gwasanaeth brys sydd wedi ei leoli ym maes parcio Traeth Benar yn gweithio ac yn cael ei archwilio yn rheolaidd. Nodwyd ymhellach bod arolwg wedi ei gynnal yn ddiweddar o ddefnydd ffônau galw gwasanaeth brys dros y Sir a gwelwyd nad oedd llawer o ddefnydd yn cael eu gwneud ohonynt gan bod unigolion yn tueddu i ddefnyddio ffonau symudol mewn argyfyngau.

Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Ymgynghorol dderbyn adroddiad i'r cyfarfod nesaf ar ddefnydd ffônau Gwasanaeth brys sydd yn yr ardal.

Penderfynwyd: (a) Gofyn i'r Harbwr Feistr ddsbarthu ei raglen waith i Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol.

(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyflwyno ystadegau ar ddefnydd ffônau Gwasanaeth brys i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

(dd) Materion Staff

Croesawyd a chyflwynwyd Alex Hills, Harbwr Feistr Cynorthwyol, i'r cyfarfod ac esboniwyd bod ei gyfnod cyflogaeth wedi ei ymestyn i gynorthwyo gyda'r rhaglen waith cynnal a chadw yr harbwr dros fisoedd y gaeaf, yn ddarostyngedig i'r sefyllfa gyllidol.

(e) Materion Harbwr

(i) Rhwystr Diogelwch Ardal y Cei

Adroddwyd bod rhwystr diogelwch wedi ei osod yn ardal y cei er mwyn ceisio gwella diogelwch y cyhoedd. Ymddiheurodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â defnyddwyr yr harbwr cyn gosod y rhwystr diogelwch. Fodd bynnag, deallir bod y rhwystr wedi profi'n gymorth enfawr a'r risg i ddiogelwch wedi gwella yn yr ardal. Bwriedir parhau gyda'r trefniant ond roedd y Gwasanaeth yn fwy na pharod i dderbyn sylwadau.

Nododd Aelod, yn dilyn trafod gyda defnyddwyr a thra'n derbyn y ffaith bod angen rheoli'r ardal dan sylw, amlygwyd pryder ynglyn â lliw y rhwystr.

Mewn ymateb, esboniwyd y byddai modd trafod hyn ymhellach ac roedd bwriad gan yr Harbwr Feistr i gysylltu gyda gwneuthurwyr arwyddion yn Nolgellau am wahanol opsiynau.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(ii) Pontwn

Diolchwyd i Mr John Smith am gydlynu cyfarfodydd er mwyn symud ymlaen gyda datrys perchnogaeth y pontwn a deallir bod Ymddiriedolaeth Cymuned Abermaw wedi datgan diddordeb i'w berchnogi. Pwysleisiodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y Cyngor yn berchen y pontwn ond bod staff yr Harbwr wedi cynnal gwaith atgyweirio arno yn y gorffennol. Hyderir, dros y misoedd nesaf, y gellir datrys a chael cadarnhad pwy fydd yn ei berchen i'r dyfodol. Nodwyd ymhellach bod y pontwn yn adnodd gwyh i'r harbwr ond nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i barhau i'w gynnal a'i gadw i'r dyfodol.

Darllenodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams gofnod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol a oedd wedi cyfrannu at y prosiect drwy gronfa Cynllun Arbrofol Eryri fel a ganlyn:

“Pontwn Cymuned Harbwr Abermaw Merioneth Yacht Club Pontoon

- Bwriad y prosiect yw gosod a chynnal pontwn parhaol gyda mynediad parhaol (pedwar tymor) mewn rhan gysgodol o'r harbwr I alluogi mynediad I ystod o weithgareddau hamdden môr, afon ac aber I bob defnyddiwr gan gynnwys rhai ac anghenion ychwanegol
- Mae'r cais hwn felly am fath hollol newydd o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion cyfredol a chynyddol defnyddwyr twristaidd, chwaraeon a hamdden
- Mae CAE wedi cyfrannu £25,000 tuag at y prosiect”

Eglurodd Mr John Smith nad oedd y mater yn symud yn ei flaen yn gyflym iawn. Esboniodd ymhellach er bod canfyddiad mai Clwb Hwyllo Meirionnydd oedd perchennog y pontwn, nid oedd hyn yn gywir. Yr hyn ddigwyddodd ydoedd bod grwp o unigolion wedi dod at ei gilydd i lunio cais ar gyfer bod yn gymwys i gyflwyno ceisiadau ar gyfer grantiau amrywiol. Bu i Gyngor Gwynedd roi cyfraniad arian ar y pryd a chadarnhad y byddai'r Cyngor yn gefnogol i'w gynnal a'i gadw ond fe wnaethpwyd yn glir na fyddai'r Cyngor yn ei newid.

Ers blwyddyn bellach nodwyd bod trafodaethau wedi digwydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Gwasanaeth Morwrol sydd wedi bod yn gefnogol ond bod rhai elfennau i'w datrys sef:

1. Trwydded gan y Cyngor er mwyn cysylltu'r pontwn i eiddo'r Cyngor
2. Cadarnhad gan y Cyngor ynglyn ag atebolrwydd cyhoeddus oherwydd ei fod ar gyfer defnydd y cyhoedd
3. Llundio a chytuno cynllun rheoli ar gyfer rheoli'r pontwn

Awgrymodd y Cadeirydd er mwyn bwrw ymlaen yn ddioid i swyddogion o'r Ymddiriedolaeth Cymuned Abermaw a'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drefnu i gyfarfod yn fuan i ddatrys y tri elfen uchod.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drefnu i gyfarfod â'r swyddogion perthnasol yn fuan.

(iii) Arwyddion Diogelwch

Nodwyd gyda chymorth a charedigrwydd Sefydliad y Bad Achub y bydd arwyddion yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2018.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(iv) Diogelwch Parcio

Mewn perthynas â chyflwyno trefn newydd sydd yn gwahardd rhai heb awdurdod i barcio ar y llecyn sydd yn rhedeg gyfochrog â chompownd yr harbwr, nododd Aelod bod angen trafodaeth bellach ynglyn â'i reolaeth.

Nododd y Swyddog Morwrol bod y trefniant wedi gwella ac efallai bod angen trafodaeth gyda'r Harbwr Feistr ynglyn â rheoli ei ddefnydd. Y bwriad ydoedd bod y llecyn ar gael i ddefnyddwyr masnachol yr harbwr ond nad oedd bwriad i logi llecyn i unigolion sydd heb gysylltiad gyda'r harbwr.

Nododd Aelod arall bod unigolion wedi parcio o flaen Ty Baddon ers blynnyddoedd lawer ac a oedd unrhyw beth y gellir ei wneud i wahardd pobl barcio yno?

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd modd cynnwys y llecyn fel rhan o orfodaeth parcio ond pwysleiswyd bod y llecyn yn eiddo i'r Cyngor a bod staff yr Harbwr angen lle i gadw cerbydau. Nodwyd bod arwyddion wedi eu rhoi i fyny ar gyfer cadw 2 lecyn parcio ar gyfer staff yr Harbwr a'r bwriad ydoedd i geisio cadw rheolaeth ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor a hyderir y gall unigolion gydymffurfio â'r trefniadau hyn.

O safbwynt statws y darn sydd wedi ei liwio gyda llinellau melyn wrth ymyl adeilad SS Dora, gofynnwyd a fyddai modd cynnwys y llecyn hwn fel rhan o'r gorchymyn parcio. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y gall wneud ymholiadau ynglyn â'r uchod.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymchwilio i'r pryderon uchod.

(f) Materion Ariannol

Cyfeiriwyd at y mantolenni cyllidol a oedd yn dangos gorwariant o £13,275 diwedd Medi 2017 ac fel rheolwr y Gwasanaeth, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei bryder yn hyn o beth gan nad oedd y targed incwm yn sylweddol gyda'r gwariant yn £29,463 ac felly y targed yn fyr o £3,857.

Mynegodd Aelod etholedig Cyngor Gwynedd ei bryder yn wyneb yr holl arbedion arfaethedig ac y byddai unrhyw doriadau i'r Gwasanaeth Morwrol yn cael effaith andwyol ar economi yr ardal, ac o ganlyniad ar ar swyddi a thwristiaeth. Awgrymwyd y dylid gwahodd Aelod Cabinet Datblygu'r Economi i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol i wyntyllu'r mater ac i fynd ag ef o amgylch i weld gweithgareddau'r harbwr.

Mewn ymateb, esboniodd yr Uwch Reolwr – Economi a Chymuned bod trafodaethau yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd a'r bwriad ydoedd cynnal gweithdai pwrpasol i drafod gwahanol opsiynau arbedion fesul Adrannau. Fodd bynnag, croesawir unrhyw gefnogaeth i warchod cyllidebau'r Gwasanaeth i'r dyfodol.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod a gwahodd yr Aelod Cabinet Datblygu'r Economi i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.

(ff) Digwyddiadau

Calonogol ydoedd nodi'r holl ddigwyddiadau a gynhelir yn Abermaw a gwerthfawrogir ymdrechion a gwaith y Gymuned yn hyn o beth. Tra'n derbyn nad oedd presenoldeb staff mewn digwyddiadau wedi bod 100% eleni a hyn yng nghyfnod tymor yr hydref sicrhawyd y byddir yn gwneud ymdrechion ar gyfer flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, rhaid ystyried bod lleihad yn yr adnoddau gyda'r Harbwr Feistr yn gweithio o fis Ebrill i fis Medi pob penwythnos, ac ar adegau angen 2 aelod o staff ar ddyletswydd o safbwynt diogelwch. Sicrhawyd y byddai staff ar gael ar gyfer digwyddiad y Motor-cross ar y traeth sydd i'w gynnal penwythnos 28/29 Hydref.

Mynegwyd bryder Aelod bod y dyddiad yn gwrthdaro gyda gwyliau hanner tymor ac y byddai'r mesydd parcio yn orlawn. Yn wreiddiol, roedd y digwyddiad hwn ar ôl y tymor twristiaeth er mwyn ymestyn y tymor ac nid adeg gwyliau hanner tymor ysgolion.

Ychwanegwyd bod y digwyddiad yn amharu ar fusnes yr ysgraff gan na fyddai pobl yn gallu mynd ar y traeth.

Mewn ymateb, awgrymodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y gall y mater gael ystyriaeth gan y Cyngor Tref ac fe ellir rhoi cyfarwyddyd i'r Gwasanaeth Morwrol drafod hefo'r trefnwyr i beidio ei gynnal yn ystod gwyliau hanner tymor, os mai dyna fyddai'r dymuniad.

I'r dyfodol, byddai'n fuddiol i staff yr Harbwr dderbyn rhestr o'r digwyddiadau sydd i'w cynnal ac arweiniad o'r hyn sydd yn ddisgwyliedig gan y staff fel rhan o'r digwyddiadau.

Penderfynwyd : Derbyn a nodi'r uchod.

7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

8. CONSESIYNAU A MASNACHU YN YSTOD DIGWYDDIADAU

Yn deillio o bryderon amlygwyd ynglyn â chonhesiynau / trwyddedau pedlar a masnachu yn ystod digwyddiadau:

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig awgrymu i'r Cyngor Tref ystyried gwahodd Heilyn Williams, Swyddog Trwyddedu'r Cyngor i'w cyfarfod i drafod trwyddedau a hawliau pedlars / masnachu yn anghyfreithiol / adolygu'r is-ddeddfau.

Ail-agorwyd y cyfarfod i'r wasg a'r cyhoedd.

9. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL (nad oedd wedi derbyn ystyriaeth fel rhan o adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig)

(a) Cais am ardal weithgareddau wedi ei rhaffu i ffwrdd

Adroddod y Cadeirydd ei fod wedi derbyn cais ar gyfer dynodi ardal weithgareddau wedi ei rhaffu ffwrdd yn yr harbwr ar gyfer defnydd gweithgareddau hamdden.

Penderfynwyd: Cymeradwyo i ymchwilio i'r mater gan ofyn i'r unigolion a wnaed y cais gysylltu â'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i drafod eu syniadau ymhellach.

(b) Cais i gynnal cystadleuaeth lleol i ddylunio (ac adeiladu) "caban traeth" unigryw i Abermaw

Adroddod y Cadeirydd bod angen rhywbeth mwy esthetig na'r hyn sydd yn bodoli'n barod ac a fyddai o fudd twristiaeth.

Penderfynwyd: Cymeradwyo'r syniad mewn egwyddor ac i unigolion sydd â diddordeb yn yr uchod i gysylltu gyda'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i drafod ymhellach unrhyw syniadau a ddaw i law.

(c) Taclusrwydd cyffredinol a lle storio o amgylch yr Harbwr

Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am gelfi pysgota ar yr harbwr ac nad oedd lle i'r plant ddal crancod. Nodwyd bwysigrwydd i'r pysgotwyr gadw celfi pysgota yn y compownd.

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig drafod gyda'r pysgotwyr i sicrhau bod y cawelli yn cael eu cadw gan adael bwlch i bobl fedru cerdded o'u hamgylch.

(ch) Ffrydiau Incwm

Gofynnwyd a oedd unrhyw fodd i fedru cynyddu incwm i'r harbwr? Nodwyd bod llawer mwy o ganŵs a caiacs i'w gweld ac a oedd yr awdurdod yn codi ffi arnynt?

Mynegodd aelod bod cymaint o fynd a dod gan gychod yn ardal yr Harbwr ac y byddai cynyddu defnydd yn y dŵr o amgylch yr harbwr yn creu risg o ddiogelwch.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y ceisir annog gweithgareddau yn yr Harbwr ond ni chodir ffi gan na fyddai'n gost effeithiol yn wyneb y ffaith y byddai'n costio mwy i weinyddu'r trefniadau o gasglu'r ffioedd.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(d) Parcio ar y ffordd ger y compownd

Nodwyd y byddai'r contractwyr yn cael cynnig cyntaf o ran parcio ar y tir uchod.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(dd) Cynnal a chadw angorfeydd a ffurflenni adrodd yn ôl

Adroddwyd y byddir yn trafod y mater uchod gyda'r staff perthnasol ym mis Tachwedd i'w wyntyllu.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(e) Y diweddaraf am reoli Pwynt Penrhyn

Adrododd y Cyng. Julian Kirkham ar yr hyn drafodwyd yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Arthog yn ddiweddar a'u bod yn gwneud cais i Adran Priffyrdd y Cyngor am gymorth ar gyfer:

- Paentio manau parcio wrth y man troi a'r man pasio
- Gosod peiriant talu ac arddangos yn yr ardal barcio, gyda'r ysgrifen canlynol i'w gynnwys ar yr arwyddion taliadau "Mae arian o'r peiriant talu ac arddangos hwn yn mynd i gadw toiledau'r Friog ar agor"
- Gosod rhwystr cyfyngiad uchder cryf. Byddai angen gosod arwyddion rhybudd ar y ffordd i'r Friog ac ar Ogledd Penrhyn Drive hefyd, er gwybodaeth i yrrwyr cerbydau mawr
- Atgyweirio arwydd "Cadw'n Glir" ar ben y ffordd i lawr i'r giât.
- Gyda chaniatâd y Swyddog Morwrol, gosodwyd giât i gau'r ardal ar frig y llithrfa er mwyn atal faniau, ac ati, barcio yn y ffordd lle mae pobl yn lansio cwch
- Arwydd wedi'i wneud yn arbennig i ddisodli'r un dros dro.
- Nodwyd ymhellach bod y trigolion o'r farn nad yw perchnogion faniau gweryll yn cyfrannu ychydig neu ddim i economi leol yr ardal, ac maent yn dueddol i gymryd dau le parcio ac yn anwybyddu'n llwyr rhybudd y Cyngor "Dim Aros Dros Nos" ac yn waeth na hynny nid oes unrhyw gyfleusterau toiledau ym Mhwynt Penrhyn. Nodwyd ymhellach bod Rheilffordd Fairboure wedi gosod gatiau i ddiogelu mynediad i'r twnel. Teimla'r Cyngor Cymuned yn gryf bod angen gwarchod yr amgylchedd ac wrth geisio eu cyfyngu i barcio lle nad oes cyfleusterau ar eu cyfer byddai'r problemau yn lleihau.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig, tra'n derbyn bod yr uchod yn rhwystredig nid oedd gan y Gwasanaeth Morwrol unrhyw bwerau cyfreithiol i symud y faniau gweryslla.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(f) Llithrfa De Penrhyn Drive

Nodwyd bod Cyngor Cymuned Arthog o'r farn mai'r peth olaf sydd angen yn y lleoliad hwn yw llithrfa. Byddai hyn yn ymestyn ei ddefnydd i ganiatáu i gerbydau gael mynediad anghyfyngedig i'r blaendraeth. Yn gyffredinol, mae'r rhan honno o Fairbourne yn draeth diogel, ac yn lle diogel i nofio. Byddai cerbydau sy'n gwibio i fyny ac i lawr yn beryglus iawn i'r cyhoedd ac yn gyfle i lansio cychod a badau dwy personol heb ganiatâd.

Gofynnir am fynediad i gerddwyr yn unig ar ffurf hyd o, e.e. mat cnau coco, ond lled cwpl o goets babanod neu debyg er mwyn i deuluoedd allu cyrraedd y traeth. Byddai angen arwydd ee. "ddim yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn" i'w osod yn y lleoliad. Byddai gosod llwybr "igam ogam" yn amhosibl oherwydd symudiad y graean bas.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod cwch bwrpasol ar gael yn yr Harbwr ar gyfer mynd allan i Pwynt Penrhyn i sicrhau nad oes unrhyw gychod yn lansio oddi yno.

O safbwynt y ramp, tra'n derbyn bod angen gwneud gwelliannau yno, eglurwyd bod llawer o symudiadau ar y traeth ond fe fyddir yn trafod y mater ymhellach gyda Mr Julian Kirkham.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(g) Ychydig iawn o le sydd i gychod

Nodwyd bod llai o le ar gael i gychod “Fin Keel”.

(h) Posib defnyddio matin sgwrio concriid i unioni'r disgyniad yng ngwaelod y llithrfa

Mewn ymateb, nododd yr Harbwr Feistr y byddai'n ystyried opsiynau i'r awgrym uchod.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(i) Angorfeydd – cais i fynd a'r angorfeydd i'r lan bob gaeaf

Pryderai Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw am nifer yr angorfeydd sydd wedi methu yn yr harbwr y tymor hwn. O ganlyniad, nid yn unig bod effaith hyn yn ymwneud â diogelwch ond hefyd gydag effeithiau posib ar breminau yswiriant i'r dyfodol. Gofynnwyd a ddylid tynnu'r angorfeydd i'r lan bob gaeaf, fel a wneir yn Aberdyfi ac a fyddai'n syniad adfer y bwiau i farcio'r ardal ymdrochi eto?

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn ddelfrydol y dylai'r uchod ddigwydd ond ei fod yn anodd yn Abermaw oherwydd ansawdd gwaelod y môr a'r ffaith nad oedd digon o le i'w cadw yn ddiogel.

Ychwanegodd yr Harbwr Feistr bod angorfeydd Aberdyfi yn llawer iawn llai ac yn ysgafnach ac yn draddodiadol roedd rhai Abermaw wedi cael eu gadael am y gaeaf. Rhagwelir anhawster ychwanegol yn y trefniadau o'u gosod yn ôl ac i dderbyn y gwaith gweinyddol angenrheidiol ar eu cyfer.

Gellir annog cwsmeriaid i'w codi ond ni ellir eu gorfodi a rhaid ceisio gwella safon ac ansawdd yr angorfeydd sydd yna'n barod. Apeliwyd ar y mudiadau i bwysleisio wrth defnyddwyr bod angen eu harchwilio yn rheolaidd.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(j) Parth Gwahardd Cychod Pwêr / Cychod Dŵr Personol

Nodwyd ar un adeg bod llinell o fwiau oddi ar daeth Abermaw yn marcio parth gwahardd i gychod pwêr gan felly sicrhau lle mwy diogel i ymdrochi. Os oes bwiau yno ai peidio, byddai unrhyw forwr doeth sy'n gyfrifol am gwch un ai yn cadw yn ddigon pell o'r ardal yma neu'n mynd ymlaen yn ofalus iawn. Yn anffodus nid yw pawb yn gwneud hyn. A oes achos felly dros adfer y bwiau i farcio'r parth ymdrochi?

Mewn ymateb, nid oedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o'r farn y byddai adfer y bwiau yn gwneud cymaint o wahaniaeth yn Abermaw ac nad oedd risg i'r cyhoedd.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

(h) Angorfeydd i'r cychod hwylio “Keel”

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Rob Triggs, awgrymwyd y dylai ef, yr Harbwr Feistr, Mr Mike Ellis a Mr Dave Niven drafod y mater ymhellach.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.

9. ETHOL SYLWEDYDDION

Ystyried enwebiadau ar gyfer sylwedyddion i wasanaethu ar y pwyllgorau canlynol:

- (a) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
- (b) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
- (c) Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

Cyflwynwyd enwau'r tri Aelod canlynol, ac fe fyddant yn penderfynu rhwng ei gilydd pa gyfarfod fyddant yn mynychu:

Y Cyng. Rob Triggs
Y Cyng. Julian Kirkham
Mr Martin Parouty

Penderfynwyd: Gofyn i'r Swyddog Cefnogi Aelodau anfon y dyddiadau iddynt fel y gallent benderfynu a chadarnhau pwy fydd yn mynychu'r cyfarfodydd.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Penderfynwyd: Nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 6 Mawrth 2018.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m. a daeth i ben am 1.50 p.m.

CADEIRYDD.